LLGC NLW LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

# FFRAMWAITH LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL

HYDREF 2023

## 1. Cyflwyniad i'r Fframwaith Llywodraethiant

1.1 Fel corff cyhoeddus, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi ymrwymo i ddilyn arfer gorau yn ei llywodraethiant ac i fod yn dryloyw yn y modd y mae'n dod i benderfyniadau ac yn cynnal ei gweithgareddau.

Diben y Fframwaith Llywodraethiant hwn yw disgrifio llywodraethiant y Llyfrgell a'i phrif ddogfennau llywodraethiant, sef y ***Siarter*** a'r ***Statudau*** a'r ***Rheoliadau***[1]***.***

Lle mae angen arweiniad awdurdodol, dylid cyfeirio bob tro at y ddogfen lywodraethiant berthnasol.

Bwriedir diweddaru'r Fframwaith hwn yn flynyddol fel ei fod yn gosod y sefyllfa fel y mae ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

## 2. Statws y Llyfrgell

2.1 Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ('y Llyfrgell') drwy Siarter Frenhinol ar 19 Mawrth 1907. Caniatawyd Siartrau Atodol a oedd yn cyflwyno mân newidiadau yn 1911 ac yn 1978. Ar 19 Gorffennaf 2006, wrth edrych ymlaen at ganmlwyddiant y Llyfrgell, caniatawyd Siarter Frenhinol Atodol a Statudau newydd. Newidiodd hyn gyfansoddiad y Llyfrgell a'i llywodraethiant yn sylweddol, yn ychwanegol at ystyried y datblygiadau cyfansoddiadol a ddeilliodd o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Y prif newid oedd gosod strwythur llywodraethiant un haenen Bwrdd Ymddiriedolwyr yn lle dwy haenen – Llys Llywodraethwyr a Chyngor, ac mae Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell yn rhannu'r penodiadau i'r Bwrdd. Diwygiwyd Statudau'r Llyfrgell ymhellach yn 2013.

2.2 Mae'r Llyfrgell yn elusen gofrestredig (rhif cofrestru: 525775) ac fel y cyfryw daw o dan oruchwyliaeth reoleiddiol y Comisiwn Elusennau.

2.3 Caiff y Llyfrgell swmp ei nawdd gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i dynodi'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

## 3. Dogfennau ac awdurdodau llywodraethiant

3.1 Y **Siarter Frenhinol Atodol a'r Statudau**. Y rhain yw prif ffynhonnell awdurdod Siarter y Llyfrgell a'i hamcan elusennol a'i llywodraethiant mewnol, yn enwedig pwerau a chyfrifoldebau Ymddiriedolion y Llyfrgell. Awdurdoda'r Statudau'r Ymddiriedolion

[1] Siarter, Statudau a'r Rheoliadau https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/amdanom-ni/llywodraethiant/bwrdd-ymddiriedolwyr-llgc

hefyd i wneud **Rheoliadau** sy'n gosod rheolau manylach i Ymddiriedolion wrth iddynt gynnal eu busnes.

3.2 **Cyfraith elusennau**, yn bennaf **Deddf Elusennau 2022**[2] a **Deddf Ymddiriedolwyr 2000**[3]. Mae'r Ymddiriedolion hefyd yn ystyried canllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau o bryd i'w gilydd, fel **Yr Ymddiriedolwr Hanfodol**[4]**, Rheoli Cyllid Elusennau**[5]**, Elusennau a Rheoli Risg**[6]**, a Gwrthdaro Buddiannau**[7]

3.3 **Cytundeb Fframwaith**[8] y cytunwyd arni yn 2011 rhwng Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (CyMMAL) a'r Llyfrgell yw'r cytundeb cyllido ar gyfer cymorth grant blynyddol Llywodraeth Cymru i'r Llyfrgell ac mae'n dod â'r gweinyddu ariannol o fewn cwmpasiad y rheolau sy'n rheoleiddio cyllid cyhoeddus. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cyhoeddi **Llythyr Cylch Gorchwyl Tymor y Llywodraeth**[9] sy'n cyfarwyddo gwariant yr arian cyhoeddus a dderbynnir gan y Llyfrgell. Mae'r **Côd ar Reoleidd-dra a Phriodoldeb a Gwerth am Arian**[10] a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi ym mis Tachwedd 2004 hefyd yn berthnasol i'r Llyfrgell dan y **Cytundeb Fframwaith**.

3.4 Mae'r Llyfrgell yn gorff cyhoeddus yng Nghymru at ddiben **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**[11]

3.5 Mae'r Llyfrgell hefyd yn gorff cyhoeddus yng Nghymru at ddiben **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**[12]**.**

3.6 Mae'r Llyfrgell yn 'awdurdod cyhoeddus' at ddiben **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**[13] ac oherwydd natur ei swyddogaethau rhaid ei bod yn arbennig o effro i

---

[2] Deddf Elusennau 2022 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2022/6/contents/enacted
[3] Deddf Ymddiriedolwyr 2000 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/29/contents
[4] Yr Ymddiredolwr Hanfodol https://www.gov.uk/government/publications/the-essential-trustee-what-you-need-to-know-cc3
[5] Rheoli Cyllid Elusennau https://www.gov.uk/government/publications/managing-financial-difficulties-insolvency-in-charities-cc12
[6] Elusennau a Rheoli Risg https://www.gov.uk/government/publications/charities-and-risk-management-cc26
[7] Gwrthdaro Buddiannau https://www.gov.uk/government/publications/conflicts-of-interest-a-guide-for-charity-trustees-cc29
[8] Cytundeb Fframwaith
[9] Llythyr Cylch Gorchwyl Tymor y Llywodraeth (Rhagfyr 2021) https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/amdanom-ni/llywodraethiant/dogfennaeth-gorfforaethol
[10] Côd ar Reoleidd-dra a Phriodoldeb a Gwerth am Arian y Trysorlys https://www.civilservant.org.uk/library/2004_Regularity_Propriety_VFM.pdf
[11] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/resources/enacted/welsh
[12] Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/resources/enacted/welsh

[13] Deddf Rhyddid Gwybodaeth https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/36/contents

ofynion **Rheoliad Cyffredinol Gwarchod Data'r DU** [14] a **Deddf Gwarchod Data (2018)**[15]

3.7 Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae ymagwedd y Bwrdd at gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau llywodraethiant yn dilyn **Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus**[16] y cyfeirir atynt weithiau fel 'Egwyddorion Nolan '.

3.8 Mae'r Llyfrgell hefyd wedi mabwysiadu **Côd Llywodraethiant Elusennol**[17] a gyhoeddwyd gan Grŵp Llywio Llywodraethiant Da.

## 4. Diben y Llyfrgell a'i rôl

4.1 Mynegir diben y Llyfrgell yn Siarter Frenhinol Atodol 2006 fel:

*casglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru a Chenedl y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg.*

4.2 Y Llyfrgell Genedlaethol yw llyfrgell ac archif digymar Cymru. Mae'n adnodd gwybodaeth enfawr ac yn drysorfa ar bob pwnc, ac yn storfa fyw o ddiwylliannau cofnodedig Cymru – ein 'Treftadaeth Ddogfennol' fel y diffinnir gan UNESCO – sydd ar gael yn rhydd i bawb. Mae hefyd yn un o'r chwe Llyfrgell 'adnau cyfreithiol' yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon[18] ac mae ganddi freintiau statudol sy'n ei galluogi i gasglu cyfran uchel o holl allbwn cyhoeddiadau print y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, gan gynnwys fformatau electronig. Erbyn heddiw, mae iddi dri dimensiwn – adeilad ffisegol ysblennydd yn Aberystwyth sy'n gartref i'r casgliadau print, llawysgrifau, gweledol a chlyweledol, llyfrgell ac oriel ar-lein sydd ar gael ar draws y byd dros y rhyngrwyd, a phresenoldeb pellach mewn amryw o leoliadau yng Nghymru.

4.3 Wrth galon y Llyfrgell mae ei chasgliadau cyfoethog ac amrywiol, rhai ohonynt wedi eu 'harysgrifennu' ar gofrestr Cof y Byd UNESCO:

(a) Gweithiau print: llyfrau, cyfnodolion, papurau newydd a deunyddiau print eraill sy'n dod i gyfanswm o tua 6m cyfrol.

---

[14] Rheoliad Cyffredinol Gwarchod Data (UK GDPR) https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/
[15] Deddf Gwarchod Data 2018 https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/12/contents
[16] Egwyddorion Nolan https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life/the-7-principles-of-public-life--2
[17] Côd Llywodraethiant Elusennol [Saesneg yn unig] https://www.charitygovernancecode.org/en/pdf
[18] Y lleill yw Llyfrgell y Bodleian yn Rhydychen, Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt, Llyfrgell Coleg y Drindod, Dulyn, Llyfrgell Genedlaethol yr Alban a'r Llyfrgell Brydeinig.

(b) Llawysgrifau: 40,000 eitem, yr hynaf yn mynd yn ôl i 113 OC ac yn cynnwys llenyddiaeth gynharaf Cymru a gweithiau Prydeinig ac Ewropeaidd cynnar.

(c) Archifau: 1,900 metr ciwb o archifau, 2,500 casgliad, gan gynnwys Archif Gwleidyddol Cymru, cofnodion ystadau, cofnodion Llys y Sesiwn Fawr a'r Eglwys yng Nghymru, pob ewyllys a brofwyd yn esgobaethau Cymru cyn 1858, papurau llenyddol a phersonol modern ac archifau sefydliadau a busnesau Cymru.

(ch) Mapiau: dros 1.5m, a miloedd o atlasau.

(d) Celf: 60,000 gwaith yn dogfennu Cymru, yn bennaf trwy dirluniau a phortreadau.

(dd) Ffotograffau: 950,000 print, negatif a thryloywlun – y casgliad mwyaf yng Nghymru.

(e) Microffurfiau: e.e. o bapurau newydd, archifau a ffynonellau hanes y teulu.

(f) Sain a delweddau symudol: 2,134,000 medr o ffilm, 250,000 awr o fideo, 150,000 awr o recordiadau sain, 200,000 eitem o Archif ITV Wales, a miloedd o recordiau a thapiau.

(ff) Deunyddiau electronig: miliynau o wrthrychau digidol, gan gynnwys CD-ROMau, e-lyfrau, e-gylchgronau, gwefannau, archifau electronig ac eitemau wedi'u digido.

4.4 Mynegir gweithgarwch y Llyfrgell i hyrwyddo'i hamcan drwy bum 'swyddogaeth graidd', ac mae gan bob un o'r swyddogaethau craidd hyn nifer o agweddau sy'n rhychwantu gweithgareddau niferus:

(a) Casglu

(b) Gwarchod

(c) Rhoi mynediad a gwybodaeth

(ch) Cyhoeddusrwydd a dehongli

(d) Cydweithio proffesiynol, yn enwedig gyda llyfrgelloedd ac archifau eraill yng Nghymru, Amgueddfa Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (sydd bellach wedi'i leoli o fewn ystâd y Llyfrgell yn Aberystwyth)

(dd) Cydweithio proffesiynol gyda llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon

## 5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

5.1 Gofyn Statudau'r Llyfrgell i'r Ymddiriedolwyr fabwysiadu cynllun sy'n gosod trefniadau ar gyfer ymgynghori'n rheolaidd â'r cyhoedd a chyda cyrff sydd â diddordeb mewn hyrwyddo amcanion y Llyfrgell, ac i nodi'r rheiny sydd â'r cymwysterau a'r parodrwydd i roi cymorth a chyngor i'r Llyfrgell.

5.2 Y cynllun presennol yw **Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyhoeddus**[19] (Hydref 2017).

## 6. Cynllunio Strategol

6.1 Gweithreda'r Llyfrgell ar gylch cynllunio pum mlynedd. Paratoir pob Cynllun Strategol gyda budd ymgynghoriad ac ymgysylltiad â'r cyhoedd a chyrff sy'n rhanddeiliaid***.*** Y Cynllun cyfredol yw ***Llyfrgell i Gymru a'r Byd: Ein Cynllun Strategol 2021-2026***[20]***.***

6.2 Fel rhan o'i gofynion adrodd i Weinidogion Cymru, mae'r Llyfrgell hefyd yn cynhyrchu ***Cynllun Gweithredu*** blynyddol.

## 7. Egwyddorion llywodraethiant a strwythur

7.1 Gorwedd awdurdod llywodraethiant y Llyfrgell gyda'r Ymddiriedolwyr sy'n rhan o Fwrdd y Llyfrgell. Fel y cyfryw, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am lywodraethiant, strategaeth, rheolaeth ariannol a rheoli asedau ar gyfer y Llyfrgell, ac mae'n cwrdd yn rheolaidd i drafod ei fusnes, naill ail fel Bwrdd llawn neu mewn pwyllgorau.

## 8. Y Bwrdd Ymddiriedolwyr

8.1 Mae rôl y Bwrdd wedi ei osod allan yn ei **Gylch Gorchwyl** yn Atodiad 1, a fabwysiadwyd gan yr Ymddiriedolwyr ym Medi 23023.

8.2 Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd yn disgwyl:

(a) gweithredu ar y cyd wrth ddod i benderfyniadau; ar brydiau, gall fod angen gwneud penderfyniadau tu allan i gyfarfodydd Bwrdd arferol sydd wedi eu trefnu, ac mewn achosion felly, gellir defnyddio'r dulliau canlynol fel ffordd o gael cytundeb ar y cyd ar benderfyniad;

- trefnu cyfarfod arbennig o Ymddiriedolwyr, naill ai wyneb yn wyneb neu ym rhithwir

[19] Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyhoeddus https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/amdanom-ni/llywodraethiant/dogfennaeth-gorfforaethol
[20] Llyfrgell i Gymru a'r Byd https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/amdanom-ni/llywodraethiant/dogfennaeth-gorfforaethol

- rhannu gwybodaeth i roi cyfeiriad i unrhyw benderfyniad, neu i alluogi Ymddiriedolwyr i ddod i benderfyniad trwy gyfrwng ebost neu ddull electronig arall, a rhannu barn yr Ymddiriedolwyr trwy ebost, gyda chanlyniad unrhyw benderfyniad ar y cyd yn cael ei rannu'n agored gyda phawb oedd ynghlwm â'r penderfyniad

- ble mae angen penderfyniadau a/neu pleidleisio trwy ebost neu gyfrwng electronig arall, mae Ymddiriedolwyr yn cytuno y gellir rhannu eu cyfeiriadau ebost gydag Ymddiriedolwyr eraill a chydag unrhyw staff perthnasol

(b) ceisio consensws ar benderfyniadau pwysig. Lle nad yw hyn yn bosib, cymerir penderfyniadau ar fwyafrif mewn pleidlais gyda'r Llywydd, fel y Cadeirydd, yn dal pleidlais fwrw. Gall Ymddiriedolwyr ofyn am gofnodi'r ffordd y pleidleisiwyd ar fater penodol yng nghofnodion y cyfarfod (gweler hefyd 8.3a uchod a 13.4 isod)

(c) datblygu'r cynlluniau a'r polisïau sy'n arwain gweithrediadau mewnol ac allanol y Llyfrgell ac yn gosod ei chyfeiriad strategol, a chymeradwyo cynlluniau a pholisïau o'r fath;

(ch) goruchwylio gwaith y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ac uwch reolwyr tra'n dirprwyo gweithrediad beunyddiol i'r Tîm Gweithredol;

(d) adfyfyrio ar ei pherfformiad ei hun yn flynyddol, gan archwilio'i heffaith a'i heffeithiolrwydd a nodi unrhyw welliannau angenrheidiol.

8.3 Mae'r safon ymddygiad a ddigwylir gan Ymddiriedolwyr wedi ei osod allan yn **Nghod Ymddygiad Ymddiriedolwyr** yn Atodiad 2.

## 9. Penodiadau i'r Bwrdd

9.1 Mae Bwrdd y Llyfrgell yn cynnwys pymtheg o Ymddiriedolwyr, wyth wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â'r Llyfrgell, a saith gan y Llyfrgell yn unol â'r Rheoliadau. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cynnwys y Llywydd, yr Is-lywydd a'r Trysorydd, y cyfeirir atynt ar y cyd fel Swyddogion y Llyfrgell. Penodir y Llywydd a'r Is-lywydd gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â'r Ymddiriedolwyr, a'r Trysorydd gan y Llyfrgell mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru. Gwneir pob penodiad yn unol â'r Siarter a'r Statudau a thrwy ddetholiad agored.

Tymor gwasanaeth Ymddiriedolwyr yw pedair blynedd.

9.2 Pan fydd seddi gwag yn codi ymhlith yr Ymddiriedolwyr, gwneir penodiadau gan y Gweinidogion yn unol â’r gweithdrefnau sy’n berthnasol o bryd i’w gilydd mewn perthynas â’r ***Côd Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus***[21].

9.3 Lle mae yna nifer o seddi gwag ymhlith penodiadau Gweinidogaethol a phenodiadau’r Ymddiriedolwyr, bydd y Bwrdd yn enwebu Ymddiriedolydd (fel arfer y Llywydd) i eistedd ar y panel cyfweld ac i ymgynghori â’r Gweinidogion ac adrodd yn ôl i’r Ymddiriedolwyr i gael eu cymeradwyaeth mewn perthynas â phenodiadau’r Ymddiriedolwyr.

9.4 Pan fydd seddi gwag yn codi mewn perthynas â’r seddi y mae gan Ymddiriedolwyr yr hawl i’w penodi mewn ymgynghoriad â Gweinidogion Cymru yn unig, mae’r Rheoliadau’n darparu i’r Ymddiriedolwyr sefydlu Panel Enwebu i gynnal proses ddethol agored a chynnig argymhellion i’r Bwrdd Ymddiriedolwyr.

9.5 Disgwylir i Ymddiriedolwyr newydd ddilyn rhaglen ymgynefino sy’n cwmpasu eu dyletswyddau fel Ymddiriedolwyr a’u rôl yn swyddogaeth a gweithredu’r Llyfrgell, ac fe’u cefnogir gan lawlyfr llywodraethiant.

9.6 Nid yw Ymddiriedolwyr, ac eithrio’r Llywydd[22], yn cael eu talu ond medrant hawlio costau teithio a threuliau am ddyletswyddau wedi eu cymeradwyo yn unol â’r graddau sy’n berthnasol i gyrff tebyg sydd wedi eu cyllido’n gyhoeddus.

9.7 Mae Rheoliadau’r Llyfrgell yn darparu ar gyfer rheoli gwrthdaro buddiannau Ymddiredolwyr gan gynnwys trefniadau i gadw Cofrestr o Fuddiannau’r Ymddiriedolwyr ac ar gyfer gwneud datganiadau buddiant mewn cyfarfodydd. Mae’r Rheoliadau hefyd yn trafod sut i drin â chynigion o roddion neu fuddiannau i’r Ymddiriedolwyr.

## 10. Pwyllgorau’r Bwrdd

10.1 O bryd i’w gilydd, mae’r Bwrdd yn penodi pwyllgorau gyda chylch gorchwyl ac aelodaeth glir i gyflawni swyddogaethau llywodraethiant parhaus neu swyddogaethau llywodraethiant ag iddynt derfyn amser. Gall y Bwrdd hefyd sefydlu gweithgorau anffurfiol o bryd i’w gilydd – e.e. i ddatblygu ffordd o feddwl y Llyfrgell ar destunau penodol ar gam cynnar.

10.2 Ar hyn o bryd, mae’r Bwrdd wedi sefydlu’r pwyllgorau sefydlog canlynol:

[21] Gweler: https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments [Saesneg yn unig]
[22] Ym mis Chwefror 2020, cymeradwyodd y Bwrdd y dylai’r Llywydd gael ei dalu o Ebrill 2021

(a) Pwyllgor Archwilio, Risg a SicrwyddRisg (y mae gofyn iddo'i sefydlu dan ei Reoliadau)

(b Pwyllgor Cylid ac Adnoddau

(c) Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant

10.3 Mae aelodaeth a chylch gorchwyl pwyllgorau sefydlog wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r ddogfen hon.

**11. Dod i benderfyniadau**

11.1 Yn eu cyfanrwydd, mae'r Bwrdd a'r Llyfrgell wedi ymrwymo i fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol wrth gyflawni eu rôl a'u cyfrifoldebau. Mae hyn yn golygu, lle mae hynny'n bosib, fod penderfyniadau, polisïau ac arferion yn hygyrch i'r cyhoedd, ac yn ddealladwy i'r cyhoedd, a hynny trwy gyhoeddi papurau a phenderfyniadau allweddol, cynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus, ymgynghori â'r cyhoedd ar newidiadau o bwys i bolisïau ac ymchwilio i ddeall persbectifau'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

11.2 Wrth gadw at ei dyletswyddau dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth, safbwynt cyntaf y Llyfrgell (sy'n gyson ag amcan y Siarter) yw rhagdybio y dylai'r egwyddor o fod yn agored a rhoi mynediad at wybodaeth fod flaenllaw, onid oes budd clir i'r cyhoedd o beidio â datgelu neu gyfyngiad cyfreithiol arall.

**12. Dirprwyo awdurdod (Atodiad 2)**

12.1 Mae'r Bwrdd wedi sefydlu cynllun o awdurdod dirprwyedig sy'n:

(a) cadw rhai penderfyniadau allweddol i'r Bwrdd lle mae hyn naill ai'n ofynnol o dan y Siarter a'r Statudau neu'n cael ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn i Ymddiriedolwyr oruchwylio materion y Llyfrgell yn iawn;

(b) dirprwyo rheolaeth weithredol feunyddiol i'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, sydd hefyd wedi'i rymuso i wneud penderfyniadau a dirprwyo awdurdod ymhellach o fewn y Tîm Gweithredol, ond y mae gofyn iddo esgoli materion risg uchel a/neu effaith uchel i'w hystyried yn amserol gan y Bwrdd a/neu un o bwyllgorau priodol y Bwrdd.

**13. Rôl y Swyddogion: Llywydd, Is-lywydd a Thrysorydd**

**13.1 Y Llywydd**

(a) Y Llywydd sy'n cadeirio'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Fel Cadeirydd Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, y Llywydd hefyd yw'r prif bwynt cyswllt gyda'r Dirprwy Weinidog sy'n noddi yn Llywodraeth Cymru.

(b) Gellir crynhoi dyletswyddau'r Llywydd fel a ganlyn:

(i) Cadeirio holl gyfarfodydd y Bwrdd;

(ii) Cadeirio Pwyllgorau eraill y Llyfrgell (ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio) fel y pennir gan y Bwrdd;

(iii) Cwrdd â'r Dirprwy Weinidog sydd â chyfrifoldeb dros gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Llyfrgell;

(iv) Dod i gyswllt â Swyddogion ac Ymddiriedolwyr eraill yn ôl yr angen;

(v) Dod i gyswllt â'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, a'r Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ôl yr angen;

(vi) Cynrychioli'r Llyfrgell yn ei thrafodion gyda'r Senedd a Llywodraeth Cymru, yn bennaf pan fydd y Dirprwy Weinidog neu Bwyllgor y Senedd ynghlwm; a

(vii) Chynrychioli'r Llyfrgell yn allanol.

(c)Y Llywydd sydd hefyd yn arwain gwaith y Bwrdd ac mae hyn yn cynnwys:

**(i) Cynrychioli safbwynt y Bwrdd yn effeithiol ac yn gywir** wrth gyfarwyddo datblygiad strategol y Llyfrgell, ei pholisïau a'i chynlluniau, ac wrth ddatblygu perthnasoedd allweddol y Llyfrgell gyda Llywodraeth Cymru, cyrff y sector a rhanddeiliaid pwysig eraill;

**(ii)** **Sicrhau bod y Llyfrgell** yn cyflawni ei hamcan dan y Siarter yn effeithiol, ynghyd â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau cyffredinol ac yn ymarfer ei phwerau cyfreithiol yn briodol; gwireddu strategaethau'r Bwrdd a'i gynlluniau, a darparu ei gwasanaethau yn unol â thargedau a dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt; ac (ar y cyd â'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd), cyfathrebu ei chynlluniau a'i chyraeddiadau i randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, Llywodraeth Cymru a staff y Llyfrgell.

**(iii)** **Goruchwylio a gweithio gyda'r Bwrdd i:**

- sicrhau bod Aelodau'n gweithredu'n unol ag arfer gorau llywodraethiant mewn ffordd sy'n briodol i Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru;
- uchafu effeithiolrwydd y Bwrdd, yn unigol ac ar y cyd, sefydlu strwythurau, systemau a phrosesau llywodraethiant, eu monitro a'u hadolygu;

- cefnogi'r Prif Weithredydd a Llyfrgellydd, gan gynnwys cytuno ar amcanion ac ymgymryd ag arfarniad blynyddol, yn dilyn ymgynghoriad ag Aelodau eraill y Bwrdd;

(iv) **Gweithio gyda Llywodraeth Cymru** i sicrhau penodiad Ymddiriedolwyr â'r amrediad sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol i sicrhau Bwrdd effeithiol a chynrychiadol sydd â'r gallu i wneud yr hyn sydd orau dros y Llyfrgell, a sicrhau eu bod yn cael eu cynefino a'u cefnogi mewn ffordd effeithiol.

**13.2 Yr Is-lywydd**

Ceir darpariaeth yn Siarter y Llyfrgell i'r Is-lywydd, yn absenoldeb y Llywydd, neu os nad yw'r Llywydd yn medru gweithredu oherwydd salwch, neu pan na fydd Llywydd wedi'i benodi, weithredu pob un o swyddogaethau'r Llywydd.

**13.3 Y Trysorydd**

(a) Y Trysorydd yw'r Ymddiriedolydd arweiniol ar holl faterion yn ymwneud ag arian y Llyfrgell a'i chyfrifon. Mae hyn yn golygu trafodaethau rheolaidd gyda staff hŷn ac Archwilio Cymru (sef archwilwyr statudol y Llyfrgell), a'r Trysorydd sy'n gyfrifol am gyflwyno'r Cyfrifon Blynyddol i'r Bwrdd a'u hargymell.

(b) Cynorthwyir y Trysorydd gan Bwyllgor Cynllunio Ariannol y Bwrdd, sy'n sicrhau bod modd craffu'n fanylach ar fanylion materion ariannol y Llyfrgell a rheolaeth ei chronfeydd preifat nag y gellid ei wneud yng nghyfarfodydd llawn y Bwrdd.

(c) Mae'r Trysorydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn rhinwedd ei swydd.

(ch) Gellir galw'r Trysorydd gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd pan fydd yn ystyried cyfrifon y Llyfrgell neu faterion eraill yn ymwneud â materion ariannol y Llyfrgell.

(c) Nid swydd weithredol yw rôl y Trysorydd. Y Prif Weithredydd a Llyfrgellydd yw Swyddog Cyfrifyddu'r Llyfrgell a benodir gan Lywodraeth Cymru dan y ***Cytundeb Fframwaith*** ac fel y cyfryw mae'n atebol yn bersonol i'r Bwrdd ac i Lywodraeth Cymru am briodoldeb yr arian cyhoeddus a roddir i'r Llyfrgell a'r defnydd effeithlon ohono.

(dd) Gweithia'r Trysorydd yn agos gyda'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'r Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd, Adnoddau Corfforaethol, gan gynnig

cyngor yn ôl yr angen, egluro materion y mae'n teimlo eu bod angen sylw'r Bwrdd ac ystyried ar bob adeg gydgyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr mewn materion ariannol.

**13.4 Pwyllgor Swyddogion**

Mae'r Siarter Frenhinol a'r Statudau yn dynodi'r canlynol fel Swyddogion y Llyfrgell;

- Llywydd
- Is-Lywydd
- Trysorydd

O dan y Rheoliadau 8.5, mae gan y Swyddogion yma (Pwyllgor Swyddogion) awdurdod dirprwyedig i weithredu ar ran Ymddiriedolwyr ar faterion brys neu annisgwyl sy'n codi rhwng cyfarfodydd o'r Ymddiriedolwyr neu mewn berthynas ac unrhyw fusnes arall sydd wedi ei ddirprwyo'n benodol gan yr Ymddiriedolwyr. Bydd pob penderfyniad sy'n cael ei wneud gan y Pwyllgor Swyddogion yn cael ei adrodd i'r Ymddiriedolwyr yn y cyfarfod cyffredinol nesaf.

Gall penderfyniadau o'r fath gael eu cymeryd mewn cyfarfod arbennig wyneb yn wyneb, yn rhithwir, neu gael eu cytuno trwy gyfathrebu electronig megis ebost, y dull a ddewisir yn ddibynnol ar frys neu natur annisgwyl y mater o dan drafodaeth.

**14. Perthnasoedd gyda Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru**

14.1 Mae'r Llyfrgell yn atebol i Lywodraeth Cymru am yr arian cyhoeddus y mae'n ei dderbyn trwy'r **Cytundeb Fframwaith**, trwy gyfarfodydd monitro rheolaidd gyda CyMAAL, trwy'r archwiliad blynyddol o gyfrifon y Llyfrgell gan Archwilio Cymru (sef archwilwyr statudol y Llyfrgell), paratoi'r datganiad llywodraethiant; a chyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn rhwng y Llywydd (yng nghwmni'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd) a'r Dirprwy Weinidog sy'n noddi ynghylch materion yn ymwneud â pherfformiad a blaenoriaethau.

14.2 Mae Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r **Cytundeb Fframwaith**, yn nodi amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol i'w cyflawni gyda'r nawdd a ddarperir mewn **Llythyr Cylch Gorchwyl Tymor y Llywodraeth**.

**15. Y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd**

15.1 Y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd yw Prif Swyddog Gweithredol y Llyfrgell a phrif gynghorydd y Bwrdd ac mae ganddo/ganddi awdurdod dirprwyedig i reoli'r Llyfrgell o ddydd i ddydd. Fel y cyfryw, y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd sy'n gyfrifol am arwain y Tîm Gweithredol a'i staff wrth:

(a) gyflawni amcanion statudol y Llyfrgell, ei swyddogaethau a’i dyletswyddau cyffredinol ac ymarfer ei phwerau cyfreithiol;

(b) datblygu cynlluniau, rhaglenni a pholisïau i’r Bwrdd ystyried a chymeradwyo;

(c) gwireddu strategaethau a chynlluniau’r Bwrdd ar gyfer y dyfodol;

(ch) cyflawni Cynlluniau Strategol a Gweithredol y Llyfrgell;

(d) darparu gwasanaethau yn unol â thargedau/dangosyddion perfformiad y mae’r Bwrdd wedi cytuno arnynt, ac mewn ymateb i’r **Llythyr Cylch Gorchwyl Tymor y Llywodraeth;**

(dd) gweithredu fel Swyddog Cyfrifyddu’r Llyfrgell ac adrodd i Lywodraeth Cymru ar ddefnydd y Llyfrgell o arian cyhoeddus;

(e) darparu gwybodaeth amserol i’r Bwrdd ar dargedau y cytunwyd arnynt.

15.2 Mae’r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd hefyd yn gyfrifol yn ehangach am:

(a) briodoldeb a rheoleidd-dra;

(b) gweinyddu’n gall ac yn ddarbodus;

(c) osgoi gwastraff ac afradlonedd;

(ch) defnydd effeithiol ac effeithlon o’r adnoddau sydd ar gael;

(d) trefniadaeth y Llyfrgell, ei staffio a’i rheolaeth;

a hefyd sicrhau bod y Tîm Gweithredol yn:

(dd) gweithredu o fewn y lefelau awdurdod a ddirprwywyd gan y Bwrdd;

(e) codii materion risg uchel a/neu effaith uchel i’w hystyried yn amserol gan y Bwrdd;

(f) cynnal rhyngwyneb effeithiol gydag Aelodau’r Bwrdd;

(ff) darparu gwybodaeth gywir ac amserol i alluogi’r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau llywodraethiant yn effeithiol;

(g) cefnogi’r Bwrdd i gyflawni ei rôl a’i gyfrifoldebau.

15.3 Gweithia’r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd hefyd gyda’r Llywydd i ddatblygu perthnasoedd y Llyfrgell gyda rhanddeiliaid allweddol ac i gyfathrebu cynlluniau a chyraeddiadau mor eang â phosib.

**16. Rôl Aelodau'r Tîm Gweithredol**

16.1 Mae gan bob aelod o'r Tîm Gweithredol feysydd cyfrifoldeb penodol sy'n gofyn am arbenigedd penodol ac mae disgwyl iddynt hefyd:

(a) sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gyflawni strategaeth y Llyfrgell yn erbyn cynlluniau y cytunwyd arnynt, neu â mynediad at y sgiliau a'r wybodaeth hynny;

(b) rheoli'r Llyfrgell o fewn y lefelau awdurdod dirprwyedig y cytunwyd iddynt;

(c) sicrhau y caiff Ymddiriedolion wybodaeth gywir ac amserol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol;

(ch) cyflwyno dadansoddiad o reolaeth risg allweddol yn rheolaidd er cymeradwyaeth y Bwrdd, ac esgoli materion risg uchel/effaith uchel yn unol â'r gofrestr rheoli risg y cytunwyd arni;

(d) codi materion/themâu a allai fod angen trafodaeth/ystyriaeth ar gyfer cynlluniau'r dyfodol, a hynny mewn ffordd ragweithiol;

(dd) defnyddio mecanweithiau ffurfiol ac anffurfiol i alluogi Aelodau'r Bwrdd i gyfrannu eu sgiliau a'u gwybodaeth arbenigol a'u harbenigedd a darparu cymorth;

(e) arwain ar ddatblygu cynlluniau, rhaglenni a pholisïau er cymeradwyaeth y Bwrdd;

(f) ceisio mewnbwn cynnar gan Aelodau'r Bwrdd er mwyn adnabod materion fydd angen sylw i ennill cymeradwyaeth y Bwrdd;

(ff) ceisio cyfleoedd i siarad er mwyn deall pryderon/persbectifau'r Bwrdd;

(g) cymryd cyfrifoldeb dros egluro'r cynigion/argymhellion; a

(ng) darparu cymorth priodol i hwyluso rhediad llyfn trafodion y Bwrdd ac Ymddiriedolwyr.

**17. Y Berthynas rhwng y Bwrdd, y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'r Tîm Gweithredol**

17.1 Yr Ymddiriedolwyr yw awdurdod llywodraethol y Llyfrgell, ond fel Bwrdd anweithredol mae'n dibynnu ar y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'r Tîm Gweithredol (sy'n gweithredu o fewn amrediad eu hawdurdod dirprwyedig a'r trefniadau adrodd), am gyngor i alluogi'r Ymddiriedolwyr i ffurfio amcanion strategol y Llyfrgell

ac am ddarpariaeth weithredol gwasanaethau'r Llyfrgell a'u heffeithiolrwydd. Nod y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol ar bob adeg yw gweithredu mewn ffordd sy'n cefnogi'i gilydd i gyflawni hyn.

**18. Polisïau Adnoddau Dynol**

18.1 Cyflogir staff y Llyfrgell ar amodau a thelerau a pholisïau cyflogaeth y Llyfrgell ei hun. Polisi cyffredinol y Llyfrgell, pa bryd bynnag y bydd yn ymarferol, ac o fewn cyfyngiadau adnoddau, yw glynu at arfer gorau'r sector cyhoeddus mewn perthynas â'r ffordd y mae'n rheoli staff y Llyfrgell.

**19. Cysylltiadau Rhwng y Cyflogwr a Staff**

19.1 Mae'r Llyfrgell yn cydnabod Undebau Llafur Prospect, PCS ac FDA at ddibenion bargeinio ar y cyd ac ymgynghori.

19.2 Ffurfiodd y Llyfrgell a'r Undebau **Gytundeb Partneriaeth** i arwain eu perthnasoedd.

**20. Cynllun Pensiwn**

20.1 Ar hyn o bryd, mae'r Llyfrgell yn gweithredu cynllun pensiwn cyflog terfynol â buddion wedi'u diffinio. Gosodir cyfraniadau'r cyflogwr yn unol ag asesiad yr Actwari yn y prisiad teirblwydd. Cyfradd cyfraniad arferol staff yw 6%.

20.2 Rheolir y cynllun pensiwn dan delerau Dogfen Ymddiriedolaeth gan yr Ymddiriedolion. Penodir yr Ymddiriedolwyr o blith aelodaeth weithgar y Cynllun (2), pensiynwyr (1), a chynrychiolwyr Bwrdd y Llyfrgell (4). Gosodir cyfansoddiad y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn unol â gofynion deddfwriaethol a chanllawiau a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

20.3 Mae'r gronfa'n ddarostyngedig i ailbrisiad actwarïaidd o bryd i'w gilydd i sicrhau y bydd y gronfa'n gallu bodloni ei rhwymedigaethau gydag amser.

20.4 Mae'r gronfa'n ddarostyngedig i oruchwyliaeth reoleiddio gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

20.5 Eithriwyd y Cynllun rhag rhai agweddau ar y drefn reoleiddio gan y rhoddwyd iddo Warant y Goron gan Lywodraeth Cymru.

20.6 Gall y Llyfrgell ddewis newid telerau'r Cynllun, neu sefydlu trefniadau cyfrannu eraill wedi'u diffinio (dan ymddiriedaeth neu gontract fel sy'n briodol) mewn ymateb i'w hanghenion busnes.

## 21 Cronfeydd Preifat

21.1 Mae'r Ymddiriedolion hefyd yn gyfrifol am reoli cronfeydd preifat a gynhyrchwyd dros sawl blwyddyn o roddion, cymynroddion ac incwm o reoli cronfeydd a thwf cyfalaf. Mae'n ofyniad gan y Llyfrgell yn ôl Deddf Ymddiriedolwyr 2000 i fabwysiadu **polisi buddsoddi**[23] ar gyfer ei chronfeydd preifat, fydd yn cael ei adolygu'n flynyddol.

21.2 Amcanion cyfredol portffolio buddsoddiadau'r Llyfrgell yw ychwanegu at yr arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

(a) Ariannu caffaeliad asedau cyfalaf gan gynnwys cyfarpar, adeiladau a chaledwedd a meddalwedd gyfrifiadurol;

(b) Prynu eitemau i alluogi'r Llyfrgell i gyflawni ei pholisi casgliadau;

(c) Ategu at gostau refeniw darparu gwasanaethau'r Llyfrgell at ddibenion penodol neu am gyfnodau penodol o amser;

(ch) Ar gyfer cronfeydd cyfyngedig, defnyddio'r arian yn unol â thelerau'r gymynrodd

21.3 Rheolir y cronfeydd preifat ar ran y Llyfrgell gan reolwyr cronfa broffesiynol yn unol â Pholisi Buddsoddi'r Llyfrgell a chânt eu goruchwylio gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.

21.4 Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, ni ystyria'r Ymddiriedolion fod unrhyw achos penodol i atal buddsoddiad mewn unrhyw gwmni ar y sail y gallai eu gweithgarwch fod yn groes i amcanion y Llyfrgell ac maent yn cydnabod, fel elusen, ei bod yn ddyletswydd ar y Llyfrgell i gyflawni'r dychweliad cyffredinol gorau ar ei buddsoddiadau er mwyn parhau i hyrwyddo'i hamcanion dan ei Siarter.

21.5 Serch hynny, noda Polisi Buddsoddi'r Ymddiriedolwyr na fuasai'r Ymddiriedolwyr yn dymuno buddsoddi ei chronfeydd yn uniongyrchol mewn unrhyw gwmni neu ddosbarth buddsoddiadau a fyddai'n golygu risg sylweddol i enw da'r Llyfrgell fel sefydliad cenedlaethol a ariennir i raddau helaeth gan arian cyhoeddus, ac a fyddai o ganlyniad yn peryglu'r gallu i hyrwyddo amcan y Llyfrgell dan ei Siarter. Yn unol â hynny, mewn unrhyw achos ble mae yna amheuaeth ynghylch buddsoddiad penodol, mae rheolwr cronfeydd y Llyfrgell dan gyfarwyddyd i ymgynghori â'r Llyfrgell i ofyn am gymeradwyaeth benodol.

[23] Polisi Arian Wrh Gefn Elusennol 2020 – 2025 – Teams – Bwrdd - Dogfennaeth

## 22. Polisïau'r Llyfrgell

22.1 O bryd i'w gilydd, mae'r Bwrdd Ymddiriedol yn mabwysiadu polisïau y bwriedir iddynt arwain gweithrediad agweddau amrywiol ar faterion ariannol a gweithgarwch gweithredol y Llyfrgell. Ceir rhestr o bolisïau cyfredol y Llyfrgell a dyddiad eu mabwysiadu ar wefan y Llyfrgell ac yn Atodiad 7.[24]

[24] https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/amdanom-ni/llywodraethiant/dogfennaeth-gorfforaethol

## ATODIAD 1

**CYLCH GORCHWYL**

**Rhagymadrodd**

Mae Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cymryd ei hawdurdod a'i chyfrifoldebau oddi wrth:

- y Siarter Frenhinol a'r Statudau sy'n ffurfio'r brif ffynhonnell awdurdod, yn enwedig pwerau a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr y Llyfrgell
- Deddf Elusennau 2022 , Deddf Ymddiriedolwyr 2000 a chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau sy'n amlinellu'n benodol gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr
- Cytundeb Fframwaith (2011) rhwng Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell, sef y cytundeb cyllido ar gyfer cymorth grant blynyddol Llywodraeth Cymru i'r Llyfrgell, ac sy'n dod â'r weinyddiaeth ariannol o fewn cwmpas rheolau sy'n rheoleiddio cyllid cyhoeddus

**Cyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**

Rôl y Bwrdd yw:

*Llywodraethu*

- sicrhau bod y Llyfrgell yn cyflawni ei hamcanion o dan y Siarter Frenhinol ynghyd â'i rhwymedigaethau statudol a chyfreithiol ac elusennol eraill
- cynnal y safonau llywodraethu uchaf sy'n ennyn hyder y cyllidwyr, y cyhoedd, staff y Llyfrgell a rhanddeiliaid eraill
- sicrhau bod gan y Bwrdd y cymysgedd o sgiliau a phrofiad sydd eu hangen arno i lywodraethu'r Llyfrgell yn dda, a bod gan y Bwrdd fynediad at, ac yn ystyried, cyngor ac arbenigedd proffesiynol allanol perthnasol
- sicrhau bod penderfyniadau mawr yn cael eu gwneud gan yr ymddiriedolwyr yn gweithredu ar y cyd ac yn cael eu cofnodi yn unol â hynny
- sicrhau bod unrhyw awdurdod a ddirprwyir i Swyddogion yn cael ei adrodd i'r Bwrdd llawn
- sicrhau bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei gofnodi gan gylch gorchwyl ar gyfer pwyllgorau'r bwrdd, disgrifiadau rôl ar gyfer swyddogion y Bwrdd, ymddiriedolwyr a

staff allweddol, a bod gweithdrefnau adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig a'u bod yn cydymffurfio â nhw

- sicrhau bod y cyfrifoldebau a ddirprwywyd i'r Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd yn cael eu mynegi'n glir mewn cynllun dirprwyo, a'u deall
- sicrhau bod gan y Llyfrgell fframwaith llywodraethiant corfforaethol sy'n briodol i elusen o'i maint a'i chymhlethdod a'i hamcanion elusennol, a bod y fframwaith hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd
- sicrhau bod gan Ymddiriedolwyr god ymddygiad a'u bod yn cydymffurfio ag ef, a bod mecanweithiau ar gyfer diswyddo ymddiriedolwyr nad ydynt yn cadw at y cod ymddygiad
- sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn cael cyfnod sefydlu priodol ar eu penodiad a pharhau i gael cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant priodol (yn unigol ac ar y cyd)

*Cydymffurfiaeth*

- sicrhau, gyda chyngor proffesiynol fel bo'n briodol, bod y Llyfrgell yn cydymffurfio gyda phob gofynion cyfansoddiadol, cyfreithiol, rheoleiddiol a statudol
- sicrhau bod yr elusen yn cydymffurfio â safonau iechyd a diogelwch o ran ei staff, gwirfoddolwyr a'r cyhoedd
- deall a chydymffurfio â'r cyfansoddiad a'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r elusen

*Cynllunio strategol*

- pennu cyfeiriad strategol cyffredinol y Llyfrgell o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac adolygu'r cynllun strategol a'r blaenoriaethau yn rheolaidd
- sicrhau bod cynlluniau a chyllidebau blynyddol yn cefnogi gweledigaeth, cenhadaeth a strategaeth y Llyfrgell
- sicrhau bod barn defnyddwyr presennol yn cael ei geisio a'i ystyried yn rheolaidd wrth ddatblygu strategaeth a darparu gwasanaethau, a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i nodi a cheisio barn defnyddwyr posibl yn y dyfodol
- sicrhau bod yr amgylchedd allanol yn cael ei adolygu'n rheolaidd ar gyfer newidiadau a allai effeithio ar yr elusen (amgylcheddol, gwleidyddol, partneriaethau ariannol a chynghreiriau)

*Rheoli Perfformiad*

- cytuno ar y mecanweithiau ar gyfer mesur effaith a chynnydd yr elusen tuag at ei gweledigaeth, cenhadaeth ac amcanion strategol, cynlluniau busnes a chyllidebau blynyddol, ac ystyried adroddiadau ar berfformiad y Llyfrgell yn rheolaidd
- sicrhau bod polisïau a strategaethau i gyfeirio meysydd allweddol o fusnes yr elusen
- sicrhau bod safonau ansawdd a gwasanaeth ar gyfer prif feysydd darparu a bod y rhain yn cael eu bodloni

- sicrhau bod risgiau i’r elusen yn cael eu nodi a’u hadolygu’n rheolaidd a bod systemau ar waith i liniaru neu leihau’r risgiau hyn
- monitro perfformiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a’r Tîm Gweithredol, gan eu dwyn i gyfrif am arfer eu swyddogaethau dirprwyedig a chyflawni yn erbyn cynlluniau a chyllidebau
- sicrhau bod gan yr elusen bolisïau a phrosesau cyflogaeth effeithiol ar waith, i recriwtio, hyfforddi a datblygu staff a gwirfoddolwyr
- sicrhau bod y Bwrdd a'r pwyllgorau yn asesu eu heffeithiolrwydd a'u perfformiad yn rheolaidd

*Cyllid ac asedau*

- sicrhau bod rhwymedigaethau ariannol y Llyfrgell yn cael eu bodloni a bod rheolaethau ariannol digonol ar waith i sicrhau bod yr holl arian sy’n ddyledus yn cael ei dderbyn, a’i ddefnyddio’n briodol, a bod yr holl asedau a rhwymedigaethau’n cael eu cofnodi
- gweithredu’n rhesymol ac yn ddarbodus ym mhob mater sy’n ymwneud â’r elusen a bob amser er lles yr elusen
- sicrhau bod strategaeth codi arian effeithiol yn ei lle
- bod yn atebol am ddiddyledrwydd yr elusen
- adolygu cyflwr stad y Llyfrgell
- sicrhau bod asedau anniriaethol megis arbenigedd a gwybodaeth sefydliadol , eiddo deallusol, brand ac enw’r Llyfrgell yn cael eu cydnabod a’u diogelu

## ATODIAD 2

## COD YMDDYGIAD YMDDIRIEDOLWYR

Mae’r *Cod Llywodraethu i Elusennau* (yn Llawlyfr yr Ymddiriedolwyr) yn nodi ystod o safonau sy'n gysylltiedig â llywodraethiant y dylai elusennau anelu at gydymffurfio â nhw. Mae'r cod wedi'i rannu'n egwyddorion. Un o'r egwyddorion yw "uniondeb" ac mae'r Cod yn argymell bod "Ymddiriedolwyr yn mabwysiadu ac yn dilyn cod ymddygiad addas ac yn gosod safonau disgwyliedig o ran moesau, uniondeb ac ymddygiad".

Nod y cod ymddygiad hwn yw gosod y safonau a ddisgwylir gan Ymddiriedolwyr y Llyfrgell wrth berfformio’u dyletswyddau. Mae pob Ymddiriedolwr yn gyfrifol am sicrhau ei fod ef/hi yn gyfarwydd â holl ddarpariaethau perthnasol y Cod ac yn cydymffurfio â hwy.

Yr egwyddorion allweddol y mae'r Cod Ymddygiad hwn wedi'i seilio arnynt yw Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan), a addaswyd i'w defnyddio gan Ymddiriedolwyr.

https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life

**Anhunanoldeb**
Dylai Ymddiriedolwyr weithredu er budd y Llyfrgell bob amser.

**Uniondeb**
Ni ddylai Ymddiriedolwyr osod eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth berfformio’u rôl fel Ymddiriedolwr. Ni ddylent weithredu er mwyn ennill manteision ariannol neu fanteision eraill iddynt eu hunain, eu teulu, eu ffrindiau, nac unrhyw sefydliad y mae nhw'n gweithio iddo neu'n ei gynrychioli. Rhaid i'r Ymddiriedolwyr ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthnasau.

**Gwrthrychedd**
Dylai Ymddiriedolwyr weithredu a gwneud penderfyniadau yn ddiduedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na rhagfarn. Mewn meysydd lle nad oes ganddynt arbenigedd eu hunain, dylai Ymddiriedolwyr ystyried gofyn am gyngor proffesiynol priodol.

**Atebolrwydd**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn atebol i'w rhanddeiliaid a'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd, ac am berfformiad y Bwrdd a'r Llyfrgell, ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno eu hunain ar gyfer y craffu sydd ei angen er mwyn sicrhau hyn.

**Bod yn Agored**
Dylai Ymddiriedolwyr weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylid cadw gwybodaeth oddi wrth y cyhoedd oni bai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

**Gonestrwydd**
Dylai Ymddiriedolwyr ddweud y gwir bob amser yn eu rôl.

**Arweinyddiaeth**
Dylai Ymddiriedolwyr hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweiniad ac esiampl a thrin eraill â pharch. Dylent fynd ati i hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn yn gadarn a herio ymddygiad gwael lle bynnag y mae'n digwydd.

## Cyfrifoldebau ac Ymddygiad fel aelod o Fwrdd a/neu Swyddog y Bwrdd

**Dylai Ymddiriedolwyr:**

- Sicrhau bod y Llyfrgell yn cyflawni ei hamcanion o dan y Siarter Frenhinol, ynghyd â'i rhwymedigaethau statudol a chyfreithiol ac elusennol eraill
- Gweithredu o fewn y ddogfen lywodraethol, cyfraith elusennau a chyfreithiau eraill fel y maent yn berthnasol i'r Llyfrgell
- Cynnal safonau llywodraethiant uchel sy'n ennyn hyder y cyhoedd, cyllidwyr, rhanddeiliaid a staff y Llyfrgell
- Sicrhau bod cronfeydd cyhoeddus a rhai elusennol yn cael eu diogelu a bod asedau, sydd wedi'u hariannu'n gyhoeddus, yn cael eu cadw'n briodol a sicrhau bod y Llyfrgell yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn economaidd ac yn effeithiol, gan osgoi gwastraff a gorwario
- Hyrwyddo a gwarchod uniondeb ac enw da'r Llyfrgell
- Cynnal cyfrinachedd materion a drafodir yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau neu a rennir ag Ymddiriedolwyr y tu allan i gyfarfodydd o'r fath, a chadw'n

gyfrinachol unrhyw wybodaeth a wneir ar gael iddynt yn rhinwedd eu swydd fel Ymddiriedolwr nad yw ar gael fel arall i'r cyhoedd

- Hyrwyddo diwylliant cynhwysol ac amrywiol yn y Llyfrgell a helpu i greu amgylchedd lle mae gwahanol safbwyntiau a chefndiroedd yn cael eu hannog a'u gwerthfawrogi

- Pennu cyfeiriad strategol cyffredinol y Llyfrgell o fewn terfynau adnoddau
- Gweithredu'n ddidwyll ac er lles y Llyfrgell bob amser

- Cadw'r safonau uchaf o wedduster

- Sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro'n codi, neu y gellid amgyffred yn rhesymol ei fod yn codi, rhwng eu dyletswyddau cyhoeddus a'u buddiannau preifat, yn ariannol neu fel arall. Dylid datgan unrhyw fuddiannau o'r fath yng Nghofrestr Buddiannau'r Llyfrgell

- Datgan ar ddechrau unrhyw gyfarfod Bwrdd neu Bwyllgor, neu'n union cyn trafod yr eitem, unrhyw fuddiant sydd ganddynt mewn perthynas ag eitem ar yr agenda; dylent ymatal rhag cymryd rhan mewn trafodaethau ar yr eitem benodol honno, a gall y Llywydd ofyn iddynt adael y cyfarfod tra bod yr eitem yn cael ei thrafod

- Cydymffurfio â pholisi a gweithdrefn y Llyfrgell ynghylch lwfansau a threuliau. Cyfrifoldeb am sicrhau cydymffurfiaeth â holl ofynion perthnasol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch taliadau a threuliau yw cyfrifoldeb pob Ymddiriedolwr unigol

- Peidio â derbyn unrhyw roddion neu letygarwch a allai effeithio ar eu barn bersonol neu eu huniondeb neu eu gosod o dan rwymedigaeth amhriodol, neu a allai ymddangos yn rhesymol felly. Dylai'r Ymddiriedolwyr ofyn am gyngor os oes amheuaeth, a hysbysu'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd am unrhyw gynigion o roddion neu letygarwch a sicrhau, pan dderbynnir rhodd neu letygarwch, fod hyn yn cael ei gofnodi yn y Gofrestr Rhoddion a gedwir gan y Rheolwr Llywodraethiant. Nid yw hyn yn cynnwys lletygarwch yn iawn ac yn rhesymol gysylltiedig â'u dyletswyddau fel Ymddiriedolwyr e.e. presenoldeb mewn derbyniad neu ginio yn eu rôl fel Ymddiriedolwr

- Peidio â chamddefnyddio adnoddau swyddogol y Llyfrgell at ddibenion defnydd personol neu wleidyddol; gall adnoddau o'r fath gynnwys offer, deunydd ysgrifennu, ffôn a gwasanaethau eraill

- Parchu cyfrinachedd y Llyfrgell, ac unrhyw wybodaeth ariannol, gyfreithiol a phersonol yn ymwneud â'r Llyfrgell, wrth ymwneud â fforymau cyfryngau cymdeithasol. Os bydd unrhyw gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol a

ddefnyddir gan Ymddiriedolwr yn cyfeirio neu'n cysylltu â'u rôl gyhoeddus fel Ymddiriedolwr Llyfrgell, dylent gymryd gofal i sicrhau ei bod yn glir ym mha gapasiti y maent yn gweithredu

- Peidio ag ymwneud â'r wasg na'r cyfryngau o ran unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Llyfrgell, oni bai bod hyn wedi'i gymeradwyo'n benodol ymlaen llaw gan y Llywydd a'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd. Bydd datganiadau cyhoeddus ffurfiol ar faterion strategol a pholisi a materin sylweddol yn cael eu gwneud gan y Llywydd a'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

- Gweithio'n ystyriol ac yn barchus gydag Ymddiriedolwyr eraill, y Tîm Gweithredol a'r staff, gan barchu amrywiaeth a gwahanol safbwyntiau

- Disgwylir i Ymddiriedolwyr newydd ddilyn rhaglen ymsefydlu o fewn chwe mis i'w hapwyntio a fydd yn ymdrin â'u dyletswyddau fel Ymddiriedolwyr a'u rôl yng ngweithgarwch a gweithrediad y Llyfrgell. Cefnogir hyn gan lawlyfr

- Rhoi amser priodol i'w dyletswyddau a'u datblygiad gan gynnwys cynnal gwybodaeth ddiweddaraf am y sefydliad a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo. Bydd disgwyl i'r Ymddiriedolwyr fynychu unrhyw hyfforddiant a drefnir ar eu cyfer

- Darllen papurau ac adroddiadau a gylchredwyd cyn cyfarfodydd, a bod yn barod i gwestiynu a herio'r rhain a chymryd rhan mewn trafodaethau

- Mynychu cyfarfodydd Bwrdd a chyfarfodydd Pwyllgor yn rheolaidd (pan fo hynny'n berthnasol), ac anfon ymddiheuriadau at y Cadeirydd a/neu'r Rheolwr Llywodraethiant am unrhyw absenoldeb

- Defnyddio’u sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad arbenigol i lywio cynllunio penderfyniadau ar y cyd

- Parchu'r egwyddor o wneud penderfyniadau ar y cyd, a chynnal a hyrwyddo penderfyniadau corfforaethol pan fyddant wedi’u gwneud

- Parchu'r gwahaniaeth rhwng priod rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol

- Cymryd rhan mewn gwerthusiad blynyddol o'u perfformiad gyda'r Llywydd

- Cymryd rhan mewn adolygiad cyfnodol o effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau

- Trin unrhyw staff sy'n cael eu cyflogi gan, neu wirfoddolwyr sy'n gweithio i'r Llyfrgell, gyda chwrteisi a pharch. Disgwylir y bydd gweithwyr yn dangos yr un ystyriaeth i chi

- Peidio â gofyn nac annog gweithwyr i weithredu mewn unrhyw ffordd a allai wrthdaro â'u Cod Ymddygiad eu hunain

- Peidio ag aflonyddu, bwlio na gweithredu'n amhriodol tuag at gyd-Ymddiriedolwyr, aelodau o staff neu'r cyhoedd. Nid yw ymddygiad o'r fath yn gyson â'r hyn a ddisgwylir gennych fel aelod o'r bwrdd ac ni chaiff ei oddef

- Monitro perfformiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, gan ei ddwyn i gyfrif am arfer ei swyddogaethau dirprwyedig a chyflawni yn erbyn cynlluniau a chyllidebau

- Dylai Ymddiriedolwyr fod, a dylent gael eu gweld i fod yn wleidyddol ddiduedd. Ni ddylai ymddiriedolwyr ddal swydd wleidyddol gyflogedig mewn plaid na dal rôl arbennig o sensitif neu uchel ei phroffil mewn plaid wleidyddol. Ar faterion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith y Llyfrgell, ni ddylai Ymddiriedolwyr wneud datganiadau gwleidyddol na chymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd gwleidyddol arall

- Dylid rhoi gwybod i'r Llywydd a/neu'r adran noddi am unrhyw fethdaliad, ymchwiliad cyfredol gan yr heddlu, euogfarn droseddol heb ei disbyddu, neu anghymwysiad fel cyfarwyddwr cwmni cyn cael eich apwyntio, neu petai unrhyw achos yn digwydd yn ystod eich cyfnod yn y swydd

## Codi pryderon o dan y cod

Pe bai cwyn yn cael ei godi gan gyd-aelod o'r Bwrdd, neu weithiwr y Llyfrgell o ran eich ymddygiad, yna gall eich ymddygiad fod yn destun ymchwiliad gan y Llyfrgell neu'r isadran noddi fel y bo'n briodol.

Os oes gennych bryder am dorri'r Cod hwn o bosibl, pryder bod rhywun yn gofyn i chi neu unrhyw un o weithwyr y Llyfrgell weithredu'n groes i'w cod ymddygiad eu hunain, neu bryder am ymddygiad neu gamweddau mewn unrhyw feysydd eraill, yna mae gennych gyfrifoldeb i godi hynny'n fewnol gyda'r Llywydd fel Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a/neu'r isadran noddi fel y bo'n briodol. Dylai pryderon am unrhyw gamwedd yn ymwneud â dull priodol o gynnal busnes y Llyfrgell neu werth am arian, twyll a llygredd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus gael eu trosglwyddo i'r archwilwyr mewnol i ymchwilio iddo, a gall wedyn gael ei gyfeirio at yr Archwilydd Cyffredinol.

## Torri'r cod

Dylid rhoi gwybod i'r Llywydd am unrhyw doriadau honedig o'r cod, a fydd yn ymchwilio i'r toriad honedig a gall hefyd gynnwys y Prif Weithredwr neu'r isadran noddi. Pe bai'r toriad honedig yn cynnwys y Llywydd, yna bydd yr isadran noddi yn ymchwilio iddo.

Os bydd toriad honedig yn ymwneud â'r Llywydd, bydd yr Is-lywydd yn cyflawni swyddogaethau'r Llywydd, ac yn absenoldeb Is-lywydd, bydd y swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni gan y Trysorydd.

Gallai toriad materol o unrhyw ran o’r cod hwn arwain at ofyn i Ymddiriedolwr ymddiswyddo o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

(gweler *Telerau ac Amodau Penodi* a *Statudau'r Llyfrgell* 5(b) a 5(e)

## Ymddiswyddo

Pe bai Ymddiriedolwr yn teimlo nad ydynt bellach yn gallu parhau yn eu rôl am ba bynnag reswm, yna efallai mai ymddiswyddo yw'r opsiwn gorau.

Dylai Ymddiriedolwr roi rhybudd rhesymol yn ysgrifenedig i'r Llywydd am eu bwriad i ymddiswyddo o'u swydd.

## Ymwadiad

Ni all unrhyw God Ymddygiad ddarparu ar gyfer pob amgylchiad ac os yw Ymddiriedolwyr yn ansicr ynghylch sut mae'r rheolau'n berthnasol, dylent ofyn am gyngor gan y Llywydd, y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, neu Glerc y Bwrdd.

## ATODIAD 3

**Dirprwyo'r Bwrdd a Swyddogaethau Staff**

Bydd y Bwrdd yn penderfynu ar Fframwaith Llywodraethiant ar gyfer gweithgareddau'r Llyfrgell. Mewn perthynas â hynny mae disgwyl i'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'r staff i gyflawni'r gweithgareddau swyddogaethol canlynol o ddydd i ddydd heb gyfeirio'n ôl cyn dechrau gweithredu er mwyn sicrhau bod amcanion y Llyfrgell yn cael eu cyflawni mor fuan â phosibl. Er hynny, mae'r Bwrdd yn disgwyl adroddiadau cynnydd rheolaidd mewn perthynas â materion arwyddocaol.

1. Gosod a rheoli pob contract angenrheidiol i gyflawni'r strategaethau a gytunwyd arnynt.

2. Awdurdodi yr holl wariant, trosglwyddo arian a'r hawl i'w drosglwyddo o fewn cyllidebau blynyddol Cyfalaf a Refeniw cyffredinol a gytunwyd.

3. Creu a gweithredu yr holl bolisïau angenrheidiol i gyflawni'r strategaethau a gytunwyd.

4. Newidiadau i'r strwythurau staffio sy'n angenrheidiol i gyflawni'r strategaethau a gytunwyd.

5. Materion yn ymwneud â chychwyn a therfyn cyflogaeth yr holl staff o dan lefel Cyfarwyddwr.

6. Telerau ac amodau yn ymwneud â'r holl staff ac eithrio gwaith Pwyllgor y Swyddogion mewn perthynas â'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd.

7. Llunio cytundebau partneriaethau yn ymwneud â strategaethau y cytunwyd arnynt (yn amodol ar adroddiad i gyfarfod nesaf y Bwrdd).

8. Penderfyniadau ar dderbyniadau i'r casgliadau o fewn strategaethau y cytunwyd arnynt.

9. Penderfyniadau masnachol a marchnata o fewn strategaethau y cytunwyd arnynt

10. Penderfyniadau yn ymwneud â chynnal a chadw adeilad y Llyfrgell a'i chasgliadau.

11. Rheoli'r Cronfeydd Preifat o ddydd i ddydd (yn amodol yn yr achos hwn ar ymwneud y Trysorydd wedi'i gynorthwyo gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, yn amodol ar strategaethau Buddsoddi a gymeradwywyd).

12. Ymatebion ffurfiol ar ran y Llyfrgell fel cyflogwr i bob dynesiad oddi wrth Ymddiriedolwyr Cynllun Blwydd-dal Staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

13. Darparu gwasanaethau.

14. Gwaredu eiddo heb fod yn dirol a chael cyngor syrfëwr mewn perthynas ag eiddo tirol (gyda'r penderfyniad ynghylch gwarediad gwirioneddol o'r olaf yn cael ei adael i'r Bwrdd).

## ATODIAD 4

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

PWYLLGOR ARCHWILIO, RISG a SICRWYDD

CYLCH GORCHWYL

TACHWEDD 2021

## Pwrpas

Pwrpas y Pwyllgor yw ceisio a rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu'r Llyfrgell, ar effeithiolrwydd rheolaeth risg y Llyfrgell, rheolaethau mewnol, cyfrifon statudol, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithdrefnau archwilio mewnol ac allanol a chydymffurfiaeth â chyfreithiau, rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol.

## Atebolrwydd

Bydd y Pwyllgor yn adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar effeithiolrwydd a chadernid rheolaethau mewnol y Llyfrgell, yn adolygu ac yn monitro ei phrosesau rheoli risg, yn adolygu ac yn monitro'r broses archwilio allanol a mewnol, a chydymffurfiaeth y Llyfrgell â deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol, a bydd yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar gamau gweithredu addas fel y bo'n briodol. Mae'r Pwyllgor wedi'i drefnu fel un o Bwyllgorau sefydlog Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

## Aelodaeth

Bydd aelodau'r pwyllgor yn cynnwys:

- Pedwar Ymddiriedolwr a benodir gan y Bwrdd o blith ei aelodau ac a ddewisir i ddarparu cymysgedd priodol o sgiliau a phrofiad.
- Bydd y Cadeirydd yn Ymddiriedolwr y Llyfrgell ac yn cael ei benodi/phenodi gan y Pwyllgor
- Bydd y Trysorydd yn aelod ex officio o'r pwyllgor, yn ogystal â'r pedwar aelod uchod.
- Dau aelod annibynnol, a benodir drwy gystadleuaeth agored.
- Ni fydd Cadeirydd y pwyllgor yn aelod o unrhyw bwyllgor ariannol arall o'r Bwrdd
- Yn absenoldeb y Cadeirydd mewn unrhyw gyfarfod, penodir aelod o'r Ymddiriedolwyr i gadeirio'r cyfarfod yn ei absenoldeb ef/hi.
- Bydd penodiadau i'r pwyllgor am gyfnod o hyd at bedair blynedd.

Caiff y Pwyllgor, gyda chymeradwyaeth y Bwrdd:

- Gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod o ddwy flynedd i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol, y gellir eu hymestyn am ddwy flynedd arall, ond ni chaiff unrhyw aelod cyfetholedig wasanaethu am gyfnod sy'n hirach na phedair blynedd.

- Nid oes gan aelodau cyfetholedig hawliau pleidleisio, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cworwm sy'n ofynnol ar gyfer trafod busnes .
- Caffael cyngor ad hoc arbenigol ar gost y Llyfrgell, yn amodol ar gyllidebau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd.

## Cyfrifoldebau

Bydd y Pwyllgor yn:

- Cynorthwyo'r Bwrdd i oruchwylio cywirdeb adroddiadau ariannol y Llyfrgell, gan gynnwys cefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran datganiadau ariannol a'r systemau adrodd ariannol a rheolaethau mewnol
- Ceisio sicrwydd ar reolaethau mewnol a fframwaith rheoli risg y Llyfrgell mewn perthynas ag adnabod, rheoli, lliniaru ac adrodd ar risgiau
- Cynorthwyo a chynghori'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu'r Llyfrgell, ar effeithiolrwydd a chadernid rheoli risg a rheolaethau mewnol y Llyfrgell
- Monitro, ar ran y Bwrdd, effeithiolrwydd a gwrthrychedd archwilwyr mewnol ac allanol
- Adolygu tendrau ar gyfer penodi a newid archwilwyr mewnol
- Adolygu adroddiadau gan yr archwilydd mewnol i'r pwyllgor, a monitro pa mor addas yw ymateb y Tîm Gweithredol i'r canfyddiadau a'r materion a nodwyd gan weithgarwch archwilio gan gynnwys llythyr rheoli archwilio allanol
- Trafod, cytuno, adolygu ac asesu'r cynllun archwilio mewnol blynyddol
- Adolygu'r adroddiad blynyddol statudol a'r cyfrifon cyn eu cyflwyno'n derfynol i'r Bwrdd
- Adolygu a chynghori ar bolisiau chwythu'r chwiban, gwrth-dwyll a gwrth-lwgrwobrwyo'r Llyfrgell a cheisio sicrwydd bod y prosesau cywir yn cael eu dilyn pan fydd ymchwiliadau'n digwydd
- Adolygu polisïau a gweithdrefnau eraill o fewn cylch gwaith y Pwyllgor
- Uwchgyfeirio materion sy'n peri pryder ynghylch rheoli risg a rheolaethau mewnol i'r Bwrdd drwy'r sianeli priodol

## Trefniadau Cyfarfodydd a'r Ysgrifenyddiaeth

- Cynhelir cyfarfodydd bedair gwaith y flwyddyn.
- Gall Cadeirydd y Pwyllgor gynnull cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.
- Gall y Bwrdd hefyd gynnull cyfarfodydd ychwanegol o'r Pwyllgor hwn yn ôl yr angen.
- Gellir cynnull cyfarfodydd ychwanegol hefyd ar gais yr archwilwyr allanol neu fewnol, heb i'r Tîm Gweithredol fod yn bresennol, os ydynt o'r farn bod hynny'n angenrheidiol, naill ai cyfarfod arbennig neu yn gyfrinachol mewn cyfarfod a drefnwyd.
- Y cworwm sy'n angenrheidiol ar gyfer trafod busnes y pwyllgor yw tri aelod o'r Ymddiriedolwyr o leiaf (gan gynnwys y Cadeirydd).
- Bydd y Prif Weithredwr a swyddogion arweiniol eraill yn bresennol ym mhob cyfarfod
- Gall y Llywydd fynychu cyfarfodydd fel sylwedydd.
- Bydd cynrychiolwyr yr archwilwyr allanol a mewnol yn mynychu pob cyfarfod.
- Bydd hysbysiad o bob cyfarfod sy'n cadarnhau lleoliad, amser a dyddiad ynghyd ag agenda o eitemau i'w trafod a phapurau ategol, yn cael ei anfon at bob aelod o'r

Pwyllgor ar ffurf electronig, ac unrhyw berson arall y mae'n ofynnol iddo/iddi fod yn bresennol, heb fod yn hwyrach na saith diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

- Eithriad fydd papurau hwyr a chytunir arnynt gyda'r Cadeirydd ymlaen llaw.
- Bydd Clerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gweithredu fel ysgrifennydd i'r Pwyllgor.
- Cyflwynir cofnodion i'r Cadeirydd o fewn deg diwrnod gwaith i ddyddiad y cyfarfod.
- Fel arfer, bydd cofnodion cyfarfodydd y pwyllgor yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth i'r Ymddiriedolwyr yn unig yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd yn dilyn cyfarfod y pwyllgor, hyd nes y cânt eu cymeradwyo yn y cyfarfod dilynol.

## Awdurdod

Awdurdodir y pwyllgor i:

- Ymchwilio i unrhyw weithgaredd o fewn ei gylch gorchwyl.
- Gofyn am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arno gan unrhyw un o weithwyr y Llyfrgell er mwyn cyflawni ei dyletswyddau, drwy'r sianeli priodol.
- Galw ar unrhyw gyflogai i gymryd rhan mewn trafodaethau mewn cyfarfod o'r pwyllgor yn ôl yr angen.
- Gofyn i unrhyw un neu bob un sy'n bresennol i ymneilltuo i hwyluso trafodaeth agored a gonest ar unrhyw fater.
- Cael mynediad at ddigon o adnoddau i gyflawni ei ddyletswyddau, gan gynnwys mynediad i Glerc Bwrdd y Llyfrgell am gymorth, yn ôl y gofyn.

## Trefniadau Adrodd

- Dylai'r Cadeirydd sicrhau, ar ôl pob cyfarfod, y paratoir adroddiadau perthnasol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr os yw'n briodol.
- Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod unrhyw argymhellion a wneir mewn cyfarfodydd yn cael eu cyfleu i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i'w cymeradwyo neu fel arall.
- Bydd y Cadeirydd, gyda chymorth Clerc y Bwrdd, yn paratoi adroddiad blynyddol i lywio'r Datganiad Llywodraethu.

## Adolygu'r Cylch Gorchwyl

Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei adolygu o leiaf bob blwyddyn neu yn ôl yr angen, ynghyd ag adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Pwyllgor.

## ATODIAD 5

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

PWYLLGOR CYLLID AC ADNODDAU

CYLCH GORCHWYL

TACHWEDD 2021

## Pwrpas

Pwrpas y Pwyllgor yw rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar reolaeth gyllidol ac adnoddau eraill yn gynaliadwy, yn effeithiol ac yn effeithlon gan y Llyfrgell.

## Atebolrwydd

Bydd y Pwyllgor yn adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar faterion cyllid, adnoddau, a buddsoddiadau ac yn gwneud argymhellion ar gamau gweithredu addas fel y bo'n briodol. Mae'r Pwyllgor wedi'i drefnu fel un o Bwyllgorau sefydlog Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

## Aelodaeth

Bydd aelodau'r pwyllgor yn cynnwys:

- Pedwar Ymddiriedolwr a benodir gan y Bwrdd o blith ei aelodau ac a ddewisir i ddarparu cymysgedd priodol o sgiliau a phrofiad, gyda hawliau pleidleisio llawn. Bydd y Trysorydd yn un o'r pedwar aelod.
- Un aelod cyfetholedig i wasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd, y gellir ei ymestyn am ddwy flynedd arall.
- Bydd y Trysorydd yn cyflawni rôl Cadeirydd y Pwyllgor.
- Yn absenoldeb y Cadeirydd mewn unrhyw gyfarfod, penodir aelod o'r Ymddiriedolwyr i gadeirio'r cyfarfod yn ei absenoldeb ef/hi.
- Bydd penodiadau i'r Pwyllgor am gyfnod o hyd at bedair blynedd .

Caiff y Pwyllgor, gyda chymeradwyaeth y Bwrdd:

- Gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod o ddwy flynedd i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol, y gellir eu hymestyn am ddwy flynedd arall, ond ni chaiff unrhyw aelod cyfetholedig wasanaethu am gyfnod sy'n hirach na phedair blynedd.
- Nid oes gan aelodau cyfetholedig hawliau pleidleisio, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cworwm sy'n ofynnol ar gyfer trafod busnes.

- Caffael cyngor ad hoc arbenigol ar gost y Llyfrgell, yn amodol ar gyllidebau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd.

## Cyfrifoldebau

Bydd y Pwyllgor yn:

- Craffu ar adroddiadau ariannol a’r defnydd o adnoddau ac yn rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr mewn perthynas â'r holl faterion ariannol.
- Monitro ac adolygu cynlluniau ariannol tymor canolig y Llyfrgell.
- Derbyn cyllidebau blynyddol drafft a monitro perfformiad a chyflawni yn erbyn y gyllideb.
- Adolygu achosion busnes sydd â goblygiadau sylweddol o ran adnoddau yn unol â'r cynllun
Dirprwyo.
- Ystyried materion cynllunio strategol a datblygu polisi sy’n ymwneud â rheolaeth ariannol, ac mewn meysydd eraill sydd â goblygiadau sylweddol o ran adnoddau, sef ystadau, adnoddau dynol, TGCh.
- Adolygu perfformiad portffolio buddsoddi’r Llyfrgell a gwneud argymhellion i’r Bwrdd ar bolisi buddsoddi a risgiau.
- Cynnal trosolwg o berfformiad gweithgareddau masnachol y Llyfrgell ac ystyried unrhyw gynigion i sefydlu ffynonellau incwm newydd.
- Monitro cymynroddion a rhoddion a pherfformiad ymgyrchoedd codi arian.
- Adolygu pob achos busnes ar gyfer defnyddio'r cronfeydd elusennol preifat a gwneud argymhellion i’r Bwrdd.
- Derbyn adroddiad blynyddol gan actiwarïaid y Llyfrgell ar fforddiadwyedd cynllun pensiwn y Llyfrgell.
- Adolygiad blynyddol o’r cynllun dirprwyo.
- Adolygu polisïau a gweithdrefnau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.
- Uwchgyfeirio materion sy’n peri pryder ynghylch cyllid ac adnoddau i’r Pwyllgor Archwilio a Risg a/neu'r Bwrdd fel y bo’n briodol drwy’r sianeli priodol.

## Trefniadau Adrodd a’r Ysgrifenyddiaeth

- Cynhelir cyfarfodydd bedair gwaith y flwyddyn.
- Gall Cadeirydd y Pwyllgor gynnull cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.
- Gall y Bwrdd hefyd gynnull cyfarfodydd ychwanegol o’r Pwyllgor hwn yn ôl yr angen.
- Y cworwm sy’n angenrheidiol ar gyfer trafod busnes y pwyllgor yw tri aelod o’r Ymddiriedolwyr o leiaf (gan gynnwys y Cadeirydd).
- Bydd y Prif Weithredwr a swyddogion arweiniol eraill yn bresennol ym mhob cyfarfod.
- Gall y Llywydd fynychu cyfarfodydd fel sylwedydd.

- Bydd hysbysiad o bob cyfarfod sy'n cadarnhau lleoliad, amser a dyddiad ynghyd ag agenda o eitemau i'w trafod a phapurau ategol, yn cael ei anfon at bob aelod o'r Pwyllgor ar ffurf electronig, ac unrhyw berson arall y mae'n ofynnol iddo/iddi fod yn bresennol, heb fod yn hwyrach na saith diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.
- Eithriad fydd papurau hwyr a chytunir arnynt gyda'r Cadeirydd ymlaen llaw.
- Bydd Clerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gweithredu fel ysgrifennydd i'r Pwyllgor.
- Cyflwynir cofnodion i'r Cadeirydd o fewn deg diwrnod gwaith i ddyddiad y cyfarfod.
- Fel arfer, bydd cofnodion cyfarfodydd y pwyllgor yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth i'r Ymddiriedolwyr yn unig yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd yn dilyn cyfarfod y pwyllgor, hyd nes y cânt eu cymeradwyo yn y cyfarfod dilynol.

## Awdurdod

Awdurdodir y pwyllgor i:

- Ymchwilio i unrhyw weithgaredd o fewn ei gylch gorchwyl.
- Gofyn am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arno gan unrhyw un o weithwyr y Llyfrgell er mwyn cyflawni ei dyletswyddau, drwy'r sianeli priodol.
- Galw ar unrhyw gyflogai i gymryd rhan mewn trafodaethau mewn cyfarfod o'r pwyllgor yn ôl yr angen.
- Gofyn i unrhyw un neu bob un sy'n bresennol i ymneilltuo i hwyluso trafodaeth agored a gonest ar unrhyw fater.
- Cael mynediad at ddigon o adnoddau i gyflawni ei ddyletswyddau, gan gynnwys mynediad i Glerc Bwrdd y Llyfrgell am gymorth, yn ôl y gofyn.

## Trefniadau Adrodd

- Dylai'r Cadeirydd sicrhau, ar ôl pob cyfarfod, y paratoir adroddiadau perthnasol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr os yw'n briodol.
- Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod unrhyw argymhellion a wneir mewn cyfarfodydd yn cael eu cyfleu i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i'w cymeradwyo neu fel arall.

## Adolygu'r Cylch Gorchwyl

Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei adolygu o leiaf bob blwyddyn neu yn ôl yr angen, ynghyd ag adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Pwyllgor.

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

# PWYLLGOR PERFFORMIAD, ANSAWDD A LLYWODRAETHIANT

## CYLCH GORCHWYL
## MAI 2023

## Pwrpas

Pwrpas y Pwyllgor yw rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar gynnal safonau darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon, monitro, adolygu a datblygu'r gwasanaethau a ddarperir, sicrhau hygyrchedd ac ansawdd y gwasanaeth i'r holl randdeiliaid, sicrhau bod gofynion yr holl randdeiliaid yn cael eu cyflawni'n deg, goruchwylio trefniadau apwyntio i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Tîm Gweithredol, a gweithredu fel Pwyllgor Tâl i benderfynu ar y cylch gorchwyl cyflog blynyddol.

## Atebolrwydd

Bydd y Pwyllgor yn adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar ansawdd a pherfformiad y gwasanaethau a ddarperir, yn gwneud argymhellion ar wella gwasanaethau a pherfformiad, ac yn monitro perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad a chyflenwi gwasanaethau allweddol. Mae'r Pwyllgor wedi'i drefnu fel un o bwyllgorau sefydlog Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru

## Aelodaeth

Bydd aelodau'r pwyllgor yn cynnwys:

- Pedwar Ymddiriedolwr a benodir gan y Bwrdd o blith ei aelodau ac a ddewisir i ddarparu cymysgedd priodol o sgiliau a phrofiad
- Bydd y Cadeirydd yn Ymddiriedolwr y Llyfrgell ac yn cael ei benodi/phenodi gan y Pwyllgor
- Yn absenoldeb y Cadeirydd mewn unrhyw gyfarfod, penodir aelod o'r Ymddiriedolwyr i gadeirio'r cyfarfod yn ei absenoldeb ef/hi
- Bydd penodiadau i'r pwyllgor am gyfnod o hyd at bedair blynedd

Caiff y Pwyllgor, gyda chymeradwyaeth y Bwrdd:

- Gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod o ddwy flynedd i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol, y gellir eu hymestyn am ddwy flynedd arall, ond ni chaiff unrhyw aelod cyfetholedig wasanaethu am gyfnod sy'n hirach na phedair blynedd
- Nid oes gan aelodau cyfetholedig hawliau pleidleisio, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cworwm sy'n ofynnol ar gyfer trafod busnes
- Caffael cyngor ad hoc arbenigol ar gost y Llyfrgell, yn amodol ar gyllidebau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd

## Cyfrifoldebau

Bydd y Pwyllgor yn:

**Llywodraethiant:**

- Goruchwylio ac adolygu rhaglen hyfforddi'r Ymddiriedolwyr yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni gofynion Ymddiriedolwyr a phwyllgorau unigol
- Darparu argymhellion ar nifer a strwythur pwyllgorau'r Bwrdd
- Adolygu'n flynyddol cylchoedd gorchwyl y pwyllgorau sefydlog
- Monitro ac adolygu'r modd y gweithredir adolygiadau llywodraethu allanol annibynnol
- Goruchwylio'r broses benodi ar gyfer Ymddiriedolwyr a benodir gan y Llyfrgell
- Adolygu dogfennaeth ar gyfer apwyntiadau Ymddiriedolwyr, gan gynnwys templed archwiliad sgiliau a disgrifiadau rôl
- Cytuno ar linell amser ar gyfer hunan werthusiad o'r Bwrdd a'i Bwyllgorau
- Cydlynu asesiad allanol o'r Bwrdd a'i Bwyllgorau bob dwy flynedd
- Adolygu canfyddiadau'r hunan asesiad a'r asesiad allanol a datblygu cynllun gweithredu/gwaith ar gyfer y Bwrdd
- Adolygu'r datganiad llywodraethiant blynyddol a'i hargymell i'r Bwrdd ei chymeradwyo
- Adolygu dogfennaeth ar recriwtio swyddogion gweithredol lefel cyfarwyddwr ac uwch, a gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar delerau ac amodau apwyntio mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru
- Cynghori'r Bwrdd ar gynllunio olyniaeth ar gyfer y Tîm Gweithredol
- Adolygu'r cynnig cyflog blynyddol a gwneud argymhelliad i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr
- Monitro cydymffurfiaeth y Llyfrgell gyda rhwymedigaethau statudol perthnasol

**Perfformiad:**

- Cynghori ar drefniadau disgyblu, cwynion ac apêl o fewn polisïau perthnasol y Llyfrgell
- Ystyried, ar ran y Bwrdd, unrhyw apeliadau gofynnol o fewn polisïau cyflogaeth y Llyfrgell
- Monitro cyrhaeddiad achrediadau allanol, e.e. Achredu Gwasanaethau Cwsmeriaid, Achredu Archifau
- Monitro a gwerthuso perfformiad a sicrhau y cyflawnir yn erbyn canlyniadau ar faterion sy'n berthnasol i ddarparu Cynllun Strategol y Llyfrgell
- Monitro a gwerthuso perfformiad a chyrhaeddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Dangosyddion Perfformiad Gwasanaethau sy'n berthnasol i Gynllun Gweithredu'r Llyfrgell
- Adolygu data mewn perthynas ag ymwneud cwsmeriaid a phrofiad cwsmeriaid
- Monitro perfformiad partneriaethau strategol a phrosiectau a chydweithio
- Adolygu adroddiadau a data mewn perthynas â gweithgareddau adneuo cyfreithiol y Llyfrgell
- Gwerthuso adroddiadau ar gasgliadau'r Llyfrgell, eu cyflwr a gweithgareddau cadwedigaeth
- Gwerthuso adroddiadau ar gyflwr a chadw asedau digidol y Llyfrgell
- Gwerthuso adroddiadau ar ansawdd a hygyrchedd gwefan y Llyfrgell
- Adnabod cyfleoedd i wella'r modd y darperir gwasanaethau a pherfformiad
- Cynghori a monitro perfformiad y Llyfrgell ar gydraddoldeb ac amrywedd
- Cynghori a monitro perfformiad y Llyfrgell ar faterion iechyd a diogelwch
- Adolygu polisïau a gweithdrefnau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor
- Uwchgyfeirio materion sy'n peri pryder ynghylch perfformiad, a safonau darparu gwasanaethau i'r Pwyllgor Archwilio, Cydymffurfio a Risg a/neu'r Bwrdd fel y bo'n briodol drwy'r sianeli priodol

| **Trefniadau Adrodd a'r Ysgrifenyddiaeth** |
|---|

- Cynhelir cyfarfodydd bedair gwaith y flwyddyn.
- Gall Cadeirydd y Pwyllgor gynnull cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen
- Gall y Bwrdd hefyd gynnull cyfarfodydd ychwanegol o'r Pwyllgor hwn yn ôl yr angen
- Y cworwm sy'n angenrheidiol ar gyfer trafod busnes y pwyllgor yw tri aelod o'r Ymddiriedolwyr o leiaf (gan gynnwys y Cadeirydd)
- Bydd y Prif Weithredwr a swyddogion arweiniol eraill yn bresennol ym mhob cyfarfod
- Gall y Llywydd fynychu cyfarfodydd fel sylwedydd
- Bydd hysbysiad o bob cyfarfod sy'n cadarnhau lleoliad, amser a dyddiad ynghyd ag agenda o eitemau i'w trafod a phapurau ategol, yn cael ei anfon at bob aelod o'r Pwyllgor ar ffurf electronig, ac unrhyw berson arall y mae'n ofynnol iddo/iddi fod yn bresennol, heb fod yn hwyrach na saith diwrnod gwaith cyn y cyfarfod
- Eithriad fydd papurau hwyr a chytunir arnynt gyda'r Cadeirydd ymlaen llaw
- Bydd Clerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gweithredu fel ysgrifennydd i'r Pwyllgor
- Cyflwynir cofnodion i'r Cadeirydd o fewn deg diwrnod gwaith i ddyddiad y cyfarfod
- Fel arfer, bydd cofnodion cyfarfodydd y pwyllgor yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth i'r Ymddiriedolwyr yn unig yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd yn dilyn cyfarfod y pwyllgor, hyd nes y cânt eu cymeradwyo yn y cyfarfod dilynol

## Awdurdod

Awdurdodir y pwyllgor i:

- Ymchwilio i unrhyw weithgaredd o fewn ei gylch gorchwyl.
- gofyn am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arno gan unrhyw un o weithwyr y Llyfrgell er mwyn cyflawni ei dyletswyddau, drwy'r sianeli priodol
- galw ar unrhyw gyflogai i gymryd rhan mewn trafodaethau mewn cyfarfod o'r pwyllgor yn ôl yr angen
- gofyn i unrhyw un neu bob un sy'n bresennol i ymneilltuo i hwyluso trafodaeth agored a gonest ar unrhyw fater
- cael mynediad at ddigon o adnoddau i gyflawni ei ddyletswyddau, gan gynnwys mynediad i Glerc Bwrdd y Llyfrgell am gymorth, yn ôl y gofyn

## Trefniadau Adrodd

- Dylai'r Cadeirydd sicrhau, ar ôl pob cyfarfod, y paratoir adroddiadau perthnasol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr os yw'n briodol.
- Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod unrhyw argymhellion a wneir mewn cyfarfodydd yn cael eu cyfleu i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i'w cymeradwyo neu fel arall

## Adolygu’r Cylch Gorchwyl

Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei adolygu o leiaf bob blwyddyn neu yn ôl yr angen, ynghyd ag adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Pwyllgor.

## ATODIAD 7

**Rhestr o Ddogfennau Llywodraethiant a Pholisïau'r Llyfrgell sydd mewn grym ar hyn o bryd:**

**1 Dogfennau Llywodraethiant Craidd**

1.1 Siarter Frenhinol Atodol a Statudau 2006

1.2 Statudau'r Llyfrgell (fel y diwygiwyd gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr ym mis Gorffennaf 2013, ac y cymeradwywyd gan y Cyfrin Gyngor ym mis Tachwedd 2013)

1.3 Rheoliadau (2020)

1.4 Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol (2023)

1.5 Rheoliadau Ariannol (2016)

1.6 Cytundeb Fframwaith Llywodraeth Cymru (2011)

1.7 Llythyr Cylch Gorchwyl Tymor y Llywodraeth (2021)

1.8 Polisi Buddsoddi Cronfeydd Preifat (2020 - 2025)

**2 Cynllun Strategol**

2.1 Llyfrgell i Gymru a'r Byd; ein Cynllun Strategol 2021 – 2026

2.2 Cynllun Gweithredol (blynyddol)

**3 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon**

3.1 Cyfrifon 2021 – 2022

3.2 Adolygiad Blynyddol

**4 Polisïau Gweithredol sydd Mewn Grym**

4.1 Polisi Gwirfoddoli (2022)

4.2 Polisi Datblygu Casgliadau (2022)

4.3 Polisi Delio â Sylwadau a Chwynion (2022)

4.4 Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyhoeddus (2017)

4.5 Polisi Diogeledd Gwybodaeth (2021)

4.6 Polisi Gwarchod Data (2020)

4.7 Telerau ac Amodau Safonol ar gyfer Archebion Prynu Nwyddau a/neu Wasanaethau (2019)

4.8 Datganiad Llesiant 2021 - 2026

4.9 Polisi Rheoli Risg (2020)

4.10 Polisi Cadwedigaeth a Gofal Casgliadau 2017 – 2022

4.11 Polisi Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion sy’n agored i niwed (2022)